



At: Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: 10 Rhagfyr 2012

Rhif Union: 01824 712589

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 18 RHAGFYR 2012** am **10.00 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd

AGENDA

RHAN 1 - GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I RHAN HON Y CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Yr Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiant personol neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes sydd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYG

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion bryg dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4 COFNODION (Tudalennau 5 - 12)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 20 Tachwedd 2012 (copi'n amgaeedig).

5 CYFLAWNI SAFONAU ANSAWDD TAI CYMRU (Tudalennau 13 - 20)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Hugh Irving, Aelod Arweiniol Cwsmeriaid a Chymunedau (copi'n amgaeedig) yn diweddarar Cabinet ar y cynnydd o ran cyflawni Safonau Ansawdd Tai Cymru.

6 YMGYNGHORIAD AR GYNLLUN GWARIANT CEFNOGI POBL A NEWID YN Y STRATEGAETH CEFNOGI POBL AR GYFER 2013 I 2014 (Tudalennau 21 - 32)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant yn gofyn i'r Cabinet gytuno newidiadau yn y Strategaeth Cefnogi Pobl a'r Cynllun Gwariant ar gyfer 2013-14.

7 GWASANAETH CAFFAEL CENEDLAETHOL (Tudalennau 33 - 50)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau (copi'n amgaeedig) yn gofyn am gytundeb y Cabinet i ymuno â'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol arfaethedig ar gyfer sector cyhoeddus Cymru gydag ymrwymiad 5 mlynedd i ddechrau.

8 ADRODDIAD CYLLID 2012/13 (Tudalennau 51 - 68)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau (copi'n amgaeedig) yn manylu'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf ac yn nodi'r cynnydd mewn perthynas â'r strategaeth gyllidebol a gytunwyd.

9 BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET (Tudalennau 69 - 70)

Derbyn Blaenraglen Waith y Cabinet a chydnabod y cynnwys.

RHAN 2 - EITEMAU CYFRINACHOL

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem ganlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig, fel y diffinnir ym mharagraffau 13, 14 a 15 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf yn cael ei datgelu.

10 DATBLYGIAD OCEAN PLAZA, Y RHYL (Tudalennau 71 - 80)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol Datblygiad Economaidd (copi'n amgaeedig) yn gofyn am benderfyniad gan y Cabinet ar roddi opsiwn i brynu tir yn Quay Street a Westbourne Avenue, y Rhyl.

11 GWASANAETHU CYFARPAR NWW STOC DAI'R CYNGOR (Tudalennau 81 - 108)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd Hugh Irving, Aelod Arweiniol Cwsmeriaid a Chymunedau (copi'n amgaeedig) yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo dyfarnu contract newydd gwasanaethu, atgyweirio a chynnal a chadw ar gyfer Stoc Dai'r Cyngor.

12 CAFFAEL GWAITH ADEILADU YNG NGOGLEDD CYMRU: STRATEGAETH GAFFAEL (Tudalennau 109 - 192)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau (copi'n amgaeedig) yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i symud ymlaen â'r prosiect i'r cyfnod gweithredu a sefydlu fframwaith ar gyfer prosiectau adeiladu yn rhanbarth Gogledd Cymru.

13 LLETY GYDA CHYMORTH A LLOCHES NOS TRAWS-FFINIOL (Tudalennau 193 - 196)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant (copi'n amgaeedig) yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo cyd-gomisiynu gyda Chyngor Sir y Fflint wasanaeth traws-ffiniol Llety gyda Chymorth a Lloches Nos.

14 STRWYTHURAU GWASANAETH: GWASANAETH PRIFFYRDD A SEILWAITH (Tudalennau 197 - 256)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus (copi'n amgaeedig) yn gofyn i'r Cabinet gymeradwyo'r opsiwn a ffefrir ar gyfer dyfodol y gwasanaeth Priffyrdd a Seilwaith yng Nghonwy a Sir Ddinbych.

MEMBERSHIP

Y Cynghorwyr

Hugh Evans
Julian Thompson-Hill
Eryl Williams
Bobby Feeley

Hugh Irving
Huw Jones
Barbara Smith
David Smith

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun on Dydd Mawrth, 20 Tachwedd 2012 at 10.00 am.

PRESENT

Cynghorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol Datblygu Economaidd; Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau; Eryl Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Addysg; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant; Huw Jones, Aelod Arweiniol Twristiaeth, Hamdden a Ieuentid; Barbara Smith, Aelod Arweiniol Moderneiddio a Pherfformiad a David Smith, Aelod Arweiniol Tir y Cyhoedd

Sylwedyddion: Ray Bartley, Joan Butterfield, Richard Davies, Alice Jones, Pat Jones, Gwyneth Kensler, Margaret McCarroll, Dewi Owens, Arwel Roberts, David Simmons, Cefyn Williams a/ac Huw Williams

ALSO PRESENT

Prif Weithredwr (MM); Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Economaidd ac Uchelgais Gymunedol (RM), Cwsmeriaid (HW), Moderneiddio a Lles (SE); Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidaidd (RGW); Pennaeth Cyllid ac Asedau (PM); Pennaeth Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg (JW); Pennaeth Addysg (KE); Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (GB); Rheolwr Polisiâu Cynllunio (AL); Uwch Swyddog Caffael (SA); Rheolwr Adran: Goleuo Strydoedd (AC) a Gweinyddwr y Pwyllgor (KEJ).

1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd Hugh Irving.

2 DATGANIAD O FUDDIANNAU

Ni ddangoswyd unrhyw ddatganiad budd personol nac un a allai achosi rhagfarn.

3 MATERION BRYD

Ni chodwyd unrhyw fater bryd.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2012.

PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Hydref 2012 fel cofnod cywir a'u harwyddo gan yr Arweinydd.

5 DARPARIAETH UWCHRADD YN SEILIEDIG AR FFYDD

Cyflwynodd y Cyngorydd Eryl Williams yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i ddechrau ymgynghoriad anffurfiol ar y newid mewn darpariaeth addysg uwchradd ar sail ffydd yn y sir.

Cyflwynodd y Cyngorydd Williams rywfaint o gefndir y sefyllfa gan gyfeirio at ymrwymiad Sir Ddinbych i gyflenwi gwelliannau sylweddol i ysgolion a chyfleusterau ysgolion er mwyn cefnogi addysg. Cyfeiriodd at ymagwedd systematig at adolygiadau addysgol o fewn y sir gan amlygu'r rhai a gynhaliwyd yn barod fel rhan o'r broses honno. O safbwynt datblygu darpariaeth ar sail ffydd, dywedwyd wrth yr aelodau fod yr Awdurdodau Catholig a'r Eglwys yng Nghymru, ynghyd â'r Esgobion ac Ymddiriedolwyr St. Brigid's wedi gweithio gyda'r Cyngor i ystyried y weledigaeth dymor hir ar gyfer addysg ar sail ffydd a'r potensial i symud tuag at un ysgol a fyddai'n gallu cyflenwi darpariaeth Gatholig ac Anglicanaidd.

Y cam nesaf oedd ymgynghori i gael barn rhieni a budd-ddeiliaid am ddarpariaeth y dyfodol ac i sicrhau a oedden nhw o'r un farn y byddai darpariaeth ar y cyd yn atgyfnerthu addysg.

Ail-adroddodd y Cyngorydd Hugh Evans bwysigrwydd darparu'r addysg a'r chyfleusterau gorau posibl a gobeithiai y byddai darganfyddiadau'r ymgynghoriad yn esgor ar y deilliant hwnnw. Nododd y farn y byddai gweithio ar y cyd yn arwain at fuddion addysg clir i ddisgyblion a cheisiodd gadarnhad bod pob parti'n cytuno. Dywedodd y Pennaeth Addysg fod trafodaethau wedi bod ar y gweill gyda'r esgobaethau a'r ysgolion a bod pob partner wedi ymrwymo i gyflenwi'r addysg orau ac yn derbyn yr angen am adolygiad. Gofynnodd y Cyngorydd Barbara Smith a oedd cynnal ymgynghoriad yn ystod cyfnod y Nadolig yn effeithlon a dywedodd y Pennaeth Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg fod y cyfnod ymgynghori wedi'i ymestyn oherwydd hyn ond y gellid ei ymestyn ymhellach os byddai angen.

Cynigiodd y Cyngorydd Williams yr argymhelliad oedd yn yr adroddiad a –

PHENDERFYNWYD cymeradwyo dechrau'r ymgynghoriad anffurfiol ym mis Rhagfyr 2012 ar yr achos am newid mewn Addysg Uwchraddyn seiliedig ar Ffydd.

6 ADOLYGIAD O DDARPARIAETH GYNRADD YN ARDAL RHUTHUN

Cyflwynodd y Cyngorydd Eryl Williams yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i'r arolwg o ddarpariaeth ysgolion cynradd yn ardal Rhuthun a dechrau ymgynghoriad gywbodaeth.

Ailadroddodd y Cyngorydd Williams ei sylwadau blaenorol am adolygiad systematig o ddarpariaeth addysgol o fewn y sir a'r angen am ddarparu'r addysg orau bosibl. Eglurodd ymhellach rai o'r adolygiadau blaenorol a gynhaliwyd a'r penderfyniadau anodd a wnaed i sicrhau darpariaeth addysg safonol. Eglurwyd hefyd cyd-destun adolygu ysgolion a darpariaeth addysg ac amlygwyd bod rhai elfennau ariannu yn ddibynnol ar gynghorau'n rheoli'r broses yn effeithiol ac yn mynd i'r afael â phroblemau fel gormod o leoedd. Roedd manylion y prif problemau sy'n wynebu ysgolion cynradd yn ardal Rhuthun o fewn yr adroddiad a chynigiwyd y byddai'r adolygiad yn edrych yn fanwl i ddechrau ar un ar ddeg o ysgolion cynradd (rhestr yn yr adroddiad) ac yn ystyried pob opsiwn ar gyfer

darpariaeth yn y dyfodol. Roedd y Cynghorydd Williams yn awyddus i bwysleisio nad oedd unrhyw benderfyniad nac argymhelliad wedi'i wneud hyd yn hyn heblaw i gymeradwyo dechrau'r broses adolygu ac ymgynghori.

Croesawodd Cynghorwyr Rhuthun David Smith a Bobby Feeley yr adolygiad i fynd i'r afael â'r problemau oedd yn wynebu ysgolion Rhuthun ac i sicrhau addysg a chyfleusterau safonol i ddisgyblion. Trafododd y Cabinet gymhlethdodau'r broses a chyflwynodd y Cynghorydd Williams enghreifftiau o ddatblygiadau a mentrau mewn ysgolion eraill gan amlygu'r ddibyniaeth ar ariannu cyfatebol i barhau â'r gwaith hwnnw a'r pwysau gan Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â phroblemau arbennig er mwyn cael arian. Manteisiodd y Cabinet ac aelodau lleyg ar y cyfle i godi cwestiynau a thrafod nifer o faterion gyda'r Cynghorydd Williams a'r swyddogion fel a ganlyn -

- Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Huw Jones, dywedodd y Pennaeth Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg (H:C&ES) am wersi a ddysgwyd o arolygon blaenorol o safbwynt sut cynhaliwyd yr arolwg; ei weithredu a'r deilliannau i ddisgyblion.
- Cadarnhaodd yr H:C&EC fod ei thîm yn gweithio'n agos gyda swyddogion sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol er mwyn rhagweld unrhyw dwf yn nifer y disgyblion o ganlyniad i ddatblygiadau tai.
- Cyfeiriodd y Cynghorydd Cefyn Williams at gau'r ysgol yn dilyn arolwg o ardal Edeyrnion a gofynnodd am sicrwydd mai hyn fyddai'r cam eithaf mewn arolygon y dyfodol, yn arbennig o gofio'r effaith ar gymunedau. Rhoddodd y Cynghorydd Eryl Williams sicrwydd y byddai pob opsiwn yn cael ei ystyried yn ofalus ac eglurodd arolwg Edeyrnion a'r penderfyniad anodd a wnaed i gau'r ysgol er budd darparu'r addysg orau bosibl i'r disgyblion.
- Mynegodd y Cynghorydd Alice Jones ei phryderon am yr effaith gwael yr oedd cau ysgolion yn ei gael ar gymunedau gwledig a rhybuddiodd yn erbyn canoli ysgolion yn Rhuthun. Yn lle hynny, awgrymodd y gellid cludo disgyblion o Ruthun i ysgolion gwledig. Awgrymodd fod cynllun ar gael yn barod am gau ysgolion beth bynnag yr ymgynghoriad. Rhoddodd y Cynghorwyr Hugh Evans a Eryl Williams sicrwydd nad oedd unrhyw gynllun wedi'i baratoi ac y byddai'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn hysbysu camau'r dyfodol. Ychwanegodd y Cynghorydd Williams y byddai'r broses yn dryloyw ac y bydden nhw'n ymateb i bob sylw ac yn gwneud penderfyniad cytbwys. Nid oedd yr adolygiad yn ymwneud â chau ysgolion ond yn sicrhau'r nifer cywir o ysgolion yn y lle cywir gyda chynnaladwyedd ar gyfer y dyfodol. Ni fyddai'n briodol ymateb i'r sylw am gludo disgyblion oherwydd y gallai ragfarnu argymhelliad posibl.

Cynigiodd y Cynghorydd Williams ei argymhelliad yn unol â'r manylion yn yr adroddiad—

PENDERFYNWYD cymeradwyo'r arolwg o ddarpariaeth ysgolion cynradd yn ardal Rhuthun a dechrau ymgynghoriad cyhoeddus anffurfiol ym mis Chwefror 2013.

7 DIWEDDARIAD AR GYNLLUN DATBLYGU LLEOL SIR DDINBYCH

Cyflwynodd y Cynghorydd Eryl Williams yr adroddiad oedd yn rhoi diweddariad ar y Cynllun Datblygu Lleol (LDP) gan gynnwys ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus

ar safleoedd tai ychwanegol a'r polisi fesul cam drafft ynghyd ag amlinelliad o'r camau nesaf.

Roedd yr adroddiad yn cynnig rhywfaint o hanes cefndir oedd yn arwain at y sefyllfa bresennol gan gynnwys crynodeb o'r prif gamau ers i'r gwaith ddechrau ar yr LDP yn 2006. Prif ffocws yr adroddiad oedd rhoi adborth ar y broses a'r sylwadau a dderbyniwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad ar safleoedd tai ychwanegol arfaethedig a'r polisi fesul cam drafft oedd wedi'i gyflwyno mewn ymateb i ddarganfyddiadau Arolygwyr Cynllunio am yr angen a'r cyflenwad tai a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2012. Gofynnwyd am gefnogaeth y Cabinet i'r polisi fesul cam drafft ynghyd â'r argymhelliad y byddai'r polisi fesul cam a'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hystyried gan y Cyngor llawn. Cynigiodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill fod sylwadau hwyr hefyd yn cael eu hystyried yn yr achos hwn. Dywedodd y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (H:P&PP) y byddai'n rhaid cyflwyno derbyn sylwadau hwyr i sylw'r Arolygwyr a hefyd byddai'n rhaid i'r Cyngor llawn benderfynu ar yr angen hwn am dderbyn unrhyw sylwadau hwyr. Cytunodd y Cabinet y dylai cyflwyniadau hwyr gael eu derbyn yn unol â'r broses y cytunwyd arni ar gyfer y Pwyllgor Cynllunio.

Eglurodd y Cynghorydd y cynnydd gyda'r LDP a dywedodd fod 21 o safleoedd tai ychwanegol posibl wedi'u nodi i'w hystyried gan y Cyngor llawn. Amlygodd bwysigrwydd sicrhau bod camau diogelu perthnasol ar gael i warantu na fyddai'r polisi fesul cam yn cael ei ystyried heblaw bod y cyflenwad tir ar gyfer tai yn disgyn yn is na 5 mlynedd. Ychwanegodd ei fod yn teimlo'n drist gan gais yr Arolygwyr am safleoedd ychwanegol i'w cynnwys o fewn y cynllun a'i fod wedi'i adael i lawr gan Aelodau'r Cynulliad y gofynnwyd am eu cefnogaeth i'r ddarpariaeth dai.

Trafododd y Cabinet yr adroddiad a mynegodd siom am yr angen am gael hyd i safleoedd tai ychwanegol yng ngoleuni'r broses anferth oedd wedi'i chynnal yn barod. Roedd gan rai aelodau bryderon am y safleoedd unigol a gynigiwyd a dywedodd yr Arweinydd y dylid codi unrhyw gwestiynau penodol safle yn y Cyngor llawn. Cadarnhawyd y bydden nhw'n pleidleisio ar bob un o'r 21 safle yn unigol.

Manteisiodd yr aelodau ar y cyfle i ofyn cwestiynau a thrafod nifer o broblemau gyda'r Aelod Arweiniol a swyddogion yn codi o'r adroddiad oedd yn ymateb fel a ganlyn -

- Byddai unrhyw safleoedd tai ychwanegol y cytunwyd arny'n nhw gan y Cyngor llawn yn cael eu cyflwyno i'r Arolygwyr ac y byddai sesiynau gwrando'n cael eu cynnal ym mis Ionawr lle byddai gwrthwynebwyr yn cael cyfle i siarad; byddai gwrthwynebwyr yn cael eu hannog i ethol siaradwr ond roedd ganddyn nhw'r hawl i ymddangos yn unigol.
- Byddai'r Arolygwyr yn cyhoeddi adroddiad yn dilyn cau'r sesiynau gwrando a byddai'n rhaid i'r Cyngor lynu at eu hargymhellion.
- Cefnogodd yr Arolygwyr y targed tai newydd o 7500 ond nid oedden nhw'n credu bod digon o dir wedi'i ddarparu i sicrhau'r nifer hwn cyn 2021. Felly, gofynnodd yr Arolygwyr am fwy o safleoedd i gyfateb i 1000 o dai gael eu cynnwys yn y cynllun; byddai'r 21 safle presennol yn darparu 980 o dai.
- Roedd y swyddogion yn adrodd ar ystod o ffactorau oedd wedi'u hystyried i gyrraedd y ffigwr o'r angen am 7500 o dai.

- Credai'r swyddogion y byddai derbyn y polisi fesul cam yn diogelu'r safleoedd hynny oherwydd dim ond mewn amgylchiadau penodol y bydden nhw'n cael eu rhyddhau ar gyfer datblygu.
- Eglurodd y swyddogion y broses ymgynghori helaeth dros oes datblygu'r cynllun ac yn fwy diweddar ar y safleoedd tai ychwanegol y cynhaliwyd ymgynghoriad arnyn nhw yn ystod y camau cyntaf.
- Wrth ystyried tai fforddiadwy a rhagfynegiadau twf, roedd y cyfrifiad wedi dangos nad oedd y twf mewn poblogaeth wedi bod mor uchel ag y rhagwelwyd.
- Trafodwyd dwysedd ar safleoedd gyda'r Arolygwr ynghyd â lefelau tai fforddiadwy y gellid eu cyflawni a bod angen sicrhau'r datblygiad mwyaf priodol i bob ardal arbennig.

Dywedodd y Cynghorydd Arwel Roberts am gyfreithlondeb mynegi ei farn bersonol ac eglurodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd y gallai aelodau fynegi eu barn ond atgoffodd aelodau y dylid mesur ac ystyried y sylwadau a phob ffaith berthnasol cyn gwneud penderfyniad. Ychwanegodd y byddai'n dosbarthu nodyn cyngor i gynghorwyr cyn y Cyngor llawn am fuddion a datganiadau.

Mynegodd y Cynghorydd Alice Jones ei phryderon am y broses LDP gan gynnwys casgliadau y daethpwyd iddyn nhw o'r astudiaeth i gyfradd llenwi tai a thwf poblogaeth a'r datganiad tir cyffredin tai fforddiadwy, Roedd hefyd yn amau a fyddai'n rhaid i aelodau'r Cabinet bleidleisio dros y cynigion yn y Cyngor llawn. Dywedodd yr Arweinydd y byddai'r holl gynghorwyr yn pleidleisio yn ôl eu dymuniad sef fel yr oedd wedi bod bob amser. Ymatebodd y swyddogion i'r pryderon am yr astudiaeth dai yn dweud bod 3000 wedi'u hadeiladu yn Sir Ddinbych ond mai dim ond o 600 yr oedd y boblogaeth wedi cynyddu gan arwain at y casgliad nad oedd y mwyafrif o'r tai hynny â phobl oedd yn symud i mewn i'r sir yn byw ynddyn nhw. Dangosodd yr astudiaeth fod 87% o'r rhai oedd yn byw yno wedi symud i mewn i'r ardal o Gymru gyda 67% wedi symud o fannau eraill o fewn Sir Ddinbych, Roedd y datganiad tir cyffredin yn ddogfen gyhoeddus oedd wedi'i chynhyrchu yn dilyn cais yr Arolygwr bod y Cyngor a chynrychiolwyr adeiladwyr tai yn trafod y problemau dan sylw.

Croesawodd y Cynghorydd Huw Williams y tai ychwanegol yn Llanbedr fyddai o fudd i fusnesau lleol a'r ysgol o fewn y gymuned.

Cynigiodd y Cynghorydd Eryl Williams yr argymhellion yn yr adroddiad a'r gwelliant i dderbyn ac ystyried cyflwyniadau hwyr sef -

PENDERFYNWYD bod y Cabinet—

(a) yn cadarnhau'r angen am fabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol diweddaraf gyfer Sir Ddinbych;

(b) yn cefnogi'r polisi fesul cam yn Atodiad 1 i'r adroddiad a'r bwriad i'w gymhwyso i unrhyw safle tai ychwanegol a gyflwynwyd gan y Cyngor i'r Arolygwyr Cynllunio;

(c) yn nodi'r adroddiad a'r sylwadau a dderbyniwyd mewn ymateb i ymgynghoriad y Cyngor ar y safleoedd tai ychwanegol arfaethedig a'r polisi fesul cam drafft ac yn argymhell eu bod yn cael eu hystyried gan y Cyngor llawn; a'i

(d) fod yn cytuno bod unrhyw sylwadau hwyr a dderbynnir cyn 5.00 p.m. dydd Llun 3 Rhagfyr yn cael eu trosglwyddo i'r Cyngor llawn ar 4 Rhagfyr 2012.

8 STRATEGAETH ATAL BAEDDU

Cyflwynodd y Cynghorydd David Smith yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i'r Strategaeth Atal Baeddu a'r camau nesaf fel y'u disgrifir yn y Cynllun Gweithredu. Roedd y Strategaeth Atal Baeddu (Atodiad 1) a'r Cynllun Gweithredu (Atodiad 2) ynghyd â chwestiynau allweddol yr aelodau (Atodiad 3) oedd yn codi o seminar diweddar, wedi'u hatodi i'r adroddiad.

Atgoffwyd yr aelodau fod cŵn yn baeddu'n broblem fawr i drigolion a bod y Strategaeth wedi'i pharatoi mewn ymateb i'r broblem. Eglurodd y Cynghorydd Smith y tri phrif faes a nodwyd yn y Strategaeth oedd wedi cael Pennaeth Gwasanaeth arbennig -

- Cyfathrebu a Marchnata – Jamie Groves
- Trefniadau Casglu – Steve Parker
- Gorfodi – Graham Boase

Roedd gan bob maes gynllun gweithredu i sicrhau cyflenwi effeithlon o fewn amserlenni priodol ac y byddai effaith y Strategaeth yn cael ei fesur yn erbyn dangosyddion i werthuso effeithiolrwydd. Cyfeiriwyd hefyd at XFOR, y cwmni â'r contract i weithredu gorfodaeth amgylcheddol gan gynnwys cwn yn baeddu.

Mynegodd y Cynghorydd Bobby Feeley bryder bod gweddillion baw cŵn yn cael eu gadael er gwaethaf gwaredu gofalus a gofynnodd a ellid ystyried gwahardd cŵn o rai manau penodol fel meysydd chwarae. Ymatebodd y Cynghorydd David Smith gan ddweud bod Gorchmynion Rheoli Cŵn yn cael eu hystyried fel mater ar wahân i'r Strategaeth. Nid oedd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yn cefnogi gweithredu manau rheoli cŵn oherwydd bod gan berchnogion cŵn ddyletswydd i ymarfer eu cŵn ac mai dim ond mewn rhai manau y gallen nhw wneud hyn yn ddiogel. Yn ystod trafodaeth fer, dywedodd y Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd (H:P&P) am gyfreithlondeb Gorchmynion Rheoli Cŵn ac amlygodd yr angen am adolygiad ac ymgynghoriad cynhwysfawr er mwyn penderfynu ar fesurau rheoli o fewn y sir.

Croesawodd y Cabinet y Strategaeth fel modd o ddelio â'r broblem o gŵn yn baeddu o fewn y sir a chymeradwyodd y fenter. Gobeithiai'r Arweinydd am fwy o fanylion penodol o fewn y ddogfen honno a themlai efallai y byddai seminar arall i aelodau'n ddefnyddiol. Amlygodd y Cynghorydd Joan Butterfield brif ardaloedd y problemau sef Brickfield Pond a Marine Lake a gofynnodd am sicrhau y byddai XFOR yn canolbwyntio nid yn unig ar dargedau hawdd ond ar fannau problemau anodd. Adroddodd yr H:P&PP am waith y XFOR wrth fynd i'r afael â'r broblem o gŵn yn baeddu gan gadarnhau eu bod wedi'u cyfarwyddo i fod yn weledol ym mhob cymuned ac nid mewn ardaloedd hawdd yn unig. Pwysleisiodd y

Cynghorydd Arwel Roberts yr angen am orfodi'r Gorchmynion Rheoli Cŵn oedd yn cael eu torri yng Nghaeau Chwarae Rhuddlan. O safbwynt cyfathrebu, amlygodd y Cynghorydd Roberts yr angen am gyfieithiadau cywir a chyswllt priodol gyda Chynghorau Tref a Chymuned.

Gofynnodd y Cynghorydd David Smith i aelodau ei hysbysu am unrhyw ardal broblem arbennig oedd angen ei thargedu. Cynigiodd yr argymhellion o fewn yr adroddiad a chynigiodd gwelliant y dylid hefyd cynnal astudiaeth i mewn i Orchmynion Rheoli Cwn.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet –

- (a) yn cymeradwyo'r Strategaeth Atal Baeddu ac yn cytuno ar y camau nesaf fel y disgrifiwyd yn y Cynllun Gweithredu (atodedig fel Atodiad 1 a 2 i'r adroddiad), a'u bod yn
- (b) gofyn i swyddogion gynnal astudiaeth i addasrwydd ac effeithlonrwydd Gorchmynion Rheoli Cŵn.

9 ADRODDIAD CYLLID 2012/13

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad gyda manylion y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth gyllideb gytunedig. Rhoddodd grynodedb byr o sefyllfa ariannol y Cyngor fel a ganlyn -

- Rhagfynegwyd tanwariant o £210k ar draws cyllidebau gwasanaethau a chorfforaethol gyda'r rhagfynegiant i ysgolion yn symudiad positif ar falansau o £169k
- Roedd £2.423m (70%) o'r arbedion y cytunwyd arnyn nhw wedi'u cyflawni gyda £995k (29%) yn cael eu symud ymlaen a £25k (1%), yn ymwneud â rhesymoli argraffwyr, yn cael ei ohirio i'r flwyddyn nesaf
- Amlygwyd amrywioldebau allweddol o dargedau cyllidebau neu arbedion a manylion gwasanaethau unigol
- Diweddariad cyffredinol o'r Cynllun Cyfalaf a'r Cyfrif Refeniw Tai.

Eglurodd y Cynghorydd Thompson-Hill nifer o faterion oedd yn codi o'r adroddiad mewn ymateb i gwestiynau gan yr aelodau. Dywedodd y Cynghorydd Hugh Evans y byddai'n ddefnyddiol bod adroddiadau'r dyfodol yn nodi canran yr arbedion gwasanaethau er mwyn darparu darlun cliriach o wasanaethau sy'n arbed dyraniadau, er bod arbedion gwasanaethau unigol wedi'u nodi. Dywedodd y Cynghorydd Thompson-Hill y gellid darparu'r canran o arbedion dros y tair blynedd nesaf ar gyfer gwasanaethau unigol ond ei bod yn bwysig darparu rhywfaint o gyddestun gyda'r ffigyrau hynny. Nid oedd targedau gwasanaethau penodol wedi'u gosod hyd yn hyn ac roedd methodolegau ar gyfer gosod targedau'r dyfodol yn cael eu hystyried. Amlygodd y Cynghorydd Bobby Feeley fod Gwasanaethau Oedolion yn statudol a bod angen iddyn nhw ymateb i nifer o bwysau yn y dyfodol gyda goblygiadau cost. Gofynnodd y Prif Weithredwr am fwy o fanylion y pwysau yn y gyllideb Prifffyrdd a'r Seilwaith gael eu darparu'n gyson gyda chyllidebau gwasanaethau eraill.

PENDERFYNWYD nodi'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd yn erbyn y strategaeth gyllideb y cytunwyd arni.

10 **BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET**

Cyflwynodd y Cynghorydd Hugh Evans y Flaenraglen Waith y Cabinet i'w hystyried a –

PHENDERFYNWYD nodi Blaenraglen Waith y Cabinet.

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

PENDERFYNWYD o fewn Adran 100A Deddf Llywodraeth Leol 1972 gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol oherwydd ei fod yn golygu y gellid datgelu gwybodaeth eithriadol fel y'i diffiniwyd ym Mharagraff 14 Rhan 4 Trefnlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

11 **PENDERFYNIAD DYFARNU AR GYFER CYTUNDEB FFRAMWAITH CYMRU GYFAN AC AGMA I DDARPARU DEFNYDDIAU GOLEUO PRIFFYRDD**

Cyflwynodd y Cynghorydd David Smith yr adroddiad cyfrinachol (dosbarthwyd ynghynt) yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i ddefnyddio Cytundeb Fframwaith Cymru Gyfan a Chymdeithas Awdurdodau Manceinion Fawr (AGMA) a ddatblygwyd yn ddiweddar ar gyfer Darparu Deunyddiau Goleuo Priffyrdd.

Talodd y Cynghorydd deyrnged i waith caled Andy Clark, Rheolwr Adran: Goleuo Strydoedd a Stuart Andrews, Uwch Swyddog Caffael wrth ddatblygu'r fframwaith ar y cyd. Gobeithiai y byddai'r model yn gallu cael ei ailadrodd mewn mannau eraill o fewn yr awdurdodau ar gyfer prosiectau eraill. Cyfeiriwyd hefyd at lwyddiannau'r Tîm Goleuo Strydoedd oedd yn flaenrol wedi ennill y categori Perfformiwr Gorau Rhwydweithiau Perfformiad yn y wobr Rhagoriaeth Cymdeithas Gwasanaethau Cyhoeddus ac ar y rhestr fer eto ar gyfer gwobr eleni.

Cafwyd mwy o fanylion gan y swyddogion am y ddarpariaeth gaffael a'r cytundeb fframwaith ar y cyd ac amlygodd yr arbedion posibl i'r Cyngor a sefydliadau eraill o ganlyniad i'r prosiect. Mewn ymateb i gwestiynau, dywedodd y Rheolwr Adran: Goleuo Strydoedd ar opsiynau buddsoddi i ddarparu effeithlonrwydd tymor hir a chadarnhaodd bod busnesau lleol yn cael eu defnyddio ar gyfer nwyddau llai pan oedd hynny'n bosibl. Cydnabu'r aelodau ymroddiad y swyddogion a'r gwaith caled oedd ynghlwm wrth ddatblygu'r cytundeb fframwaith a diolchodd iddyn nhw am eu hymdrechion.

PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn rhoi awdurdod i'r Rheolwr Goleuo Strydoedd ddefnyddio'r Cytundeb Fframwaith Cymru gyfan ac AGMA a ddatblygwyd yn ddiweddar i ddarparu Deunyddiau Goleuo Priffyrdd.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.45 p.m.

Adroddiad i: Cyfarfod Cabinet
Dyddiad y Cyfarfod: 18 Rhagfyr 2012
Aelod Arweiniol / Swyddog: Y Cynghorydd Hugh Irving
Awdur yr Adroddiad: Peter McHugh
Teitl: Darparu Safon Ansawdd Tai Cymru

1. Ynghylch beth mae'r adroddiad?

Cyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Cabinet ar y cynnydd i gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru.

2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

Mae'r adroddiad er gwybodaeth ac yn rhoi'r wybodaeth diweddaraf i'r Aelodau ar y cynnydd a wneir mewn sicrhau fod holl Stoc Tai'r Cyngor yn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru; mae'n amlinellu costau contractau 6/7 & 8, yn rhoi trosolwg o fodlonrwydd y cwsmer a manteision adfywio ehangach sy'n deillio o'r gwaith.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Fod y Cabinet yn nodi'r cynnydd mewn sicrhau fod stoc tai rhent y Cyngor yn cyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru.

4. Manylion yr adroddiad

Pan ddechreuodd y rhaglen adnewyddu Tai yn 2005 cafodd ei dyrannu'n nifer o 'rannau' er mwyn taenu'r gwaith yn fwy cyfartal dros y sir yn ddaearyddol, er mwyn rhoi gwell werth am arian ac i sicrhau y gellid rhaglennu'r gwaith yn effeithiol ar gyfer y diwydiant adeiladu. Mae wyth 'rhan' contract tai wedi'u tendro'n llwyddiannus trwy'r contract fframwaith adnewyddu tai gyda chontractau 1 – 5 wedi'u gorffen erbyn hyn. Mae contractau 6 a 7 ar safle ar hyn o bryd ac mae contract 8 wedi'i chymeradwyo ac i gychwyn ddiwedd mis Tachwedd. Disgwylir y bydd y dyddiad cwblhau'r rhaglen ym mis Rhagfyr 2013.

Ers 2009, mae Cyngor Sir Ddinbych wedi adnewyddu 1,172 o eiddo i'w codi i Safon Ansawdd Tai Cymru. Mae 136 o eiddo heb eu cwblhau ar hyn o bryd ar gontract 6, 170 ar gontract 7 a 171 ar gontract 8. Unwaith y bydd yr eiddo sy'n weddill wedi'u gorffen, bydd nifer yr eiddo a gafodd eu hadnewyddu rhwng 2009 a hyd at 2014 yn 1,649 o gartrefi.

Cyn 2009, roedd 1,800 arall eisoes wedi'u hadnewyddu sy'n golygu y bydd 3,463 o gartrefi wedi'u gwella'n llwyr erbyn 2013.

Contractau Presennol

Yn dilyn darparu Contractau 1 – 5 yn llwyddiannus, gosodwyd Contractau 6, 7 ac 8 trwy'r Fframwaith Adnewyddu Tai.

Cafodd y rhaglen ddarparu ganlynol ei chytuno ar gyfer contractau 6, 7 ac 8:-

Contract 6	Cyfanswm yr eiddo i'w hadnewyddu	221
	Dyddiad Cychwyn y Contract:	16 Ebrill 2012
	Dyddiad Cwblhau'r Contract	27 Medi 2013
	Swm y Contract	£2.8m
Contract 7	Cyfanswm yr eiddo i'w hadnewyddu	192
	Dyddiad Cychwyn y Contract:	20 Awst 2012
	Dyddiad Cwblhau'r Contract	15 Tachwedd 2013
	Swm y Contract	£2.4m
Contract 8	Cyfanswm yr eiddo i'w hadnewyddu	171
	Dyddiad Cychwyn y Contract:	29 Tachwedd 2012
	Dyddiad Cwblhau'r Contract	21 Rhag 2013
	Swm y Contract	£2.8m

Mae Contractau 6, 7 ac 8 hefyd yn cynnwys ail osod ffenestri a drysau allanol a gosodiadau gwres newydd. Mae'n werth nodi bod llawer o'r eiddo yng nghontractau 6/7 ac 8 wedi'u hadnewyddu cyn dechrau gwaith ar gontract Safon Ansawdd Tai Cymru yn 2005. Felly, er bod y cartrefi hyn ar ddiwedd rhaglen Safon Ansawdd Tai Cymru mae ffenestri dwbl a cheginau ac ystafelloedd ymolchi cymharol fodern eisoes yn llawer o'r cartrefi. Ond dydyn nhw ddim yn cydymffurfio'n llwyr â'r safon a bydd y gwaith sy'n cael ei gynnwys yng nghontractau 6/7/8 yn eu codi i gydymffurfio'n llawn â'r safon.

Mae'r Swyddogion wedi ceisio defnyddio contractau Safon Ansawdd Tai Cymru i gefnogi isgontractwyr a chadwyni cyflenwi lleol yn Sir Ddinbych. Mae enghreifftiau o gadwyni cyflenwi lleol yn cynnwys:

- Adever yn recriwtio 8 prentis saer a chrefftau gwlyb a 2 o staff swyddfa ers dechrau ar y rhaglen wella yn 2010.
- Cytunodd Adever a Crest Co-operative yn 2012 i ailgylchu'r ceginau ac ystafelloedd ymolchi.
- Daeth pob un o isgontractwyr Adever a 69% o weithwyr safle gyda Brammal o ardal côd post Cyngor Sir Ddinbych.
- Cyflenwyd yr holl geginau'n lleol gan Howdens
- Roedd llafur lleol yn gweithio ar 100% o waith y Contract Gwresogi.

Yn ogystal â'r gwaith o dan y rhaglen wella, roedd y tenantiaid hefyd yn elwa o waith cysylltiedig megis insiwleiddio lloffydd a waliau dwbl sydd wedi gwella'r raddfa Gweithdrefn Asesiad Safonol (SAP) a uValue y stoc yn arwyddocaol.

Bydd Cabinet yn cofio mai amcan gwreiddiol Llywodraeth Cymru oedd y byddai holl stoc tai cymdeithasol yn cyrraedd y safon erbyn 2012. Fodd bynnag, fel y gwelir yn Atodiad A, nid oedd hynny'n realistig (nac yn enghraifft dda o werth am arian) i lawer o landlordiaid. Yn achos Sir Ddinbych, mae'r rhaglen wedi'i llyfnhau i leihau gorddibyniaeth ar un contractwr ond mae wedi peri oedi mewn cymeradwyo contractau a pharchu dymuniadau tenantiaid (er enghraifft tenantiaid yn gofyn ym mis Tachwedd i'r gwaith beidio â dechrau cyn y Nadolig) a hynny i gyd wedi golygu yr aed dros darged 2012. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru'n fodlon iawn gyda chynnydd Sir Ddinbych ac mae Pennaeth Tai a Datblygu Cymunedol wedi'i benodi ar Weithlu Gweinidogaethol i gynghori'r Gweinidog dros Adfywio Tai a Threftadaeth ar ddewisiadau er mwyn galluogi Wrecsam, Sir y Fflint ac Abertawe i gyrraedd Safon Ansawdd Tai Cymru.

5. Sut y bydd y penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae darparu Safon Ansawdd Tai Cymru'n flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor ac i Lywodraeth Cymru.

6. Beth fydd y gost a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae costau darparu Safon Ansawdd Tai Cymru wedi'u cynnwys yng Nghynllun Busnes Cyfrif Refeniw Tai ac yn gyfuniad o'r Lwfans Atgyweiriadau Mawr, Derbynion Cyfalaf y Gellir eu Defnyddio a benthyca darbodus. Mae'r gwaith yn cael ei gyllido trwy'r rhaglen waith cyfalaf ac mae arolwg cyflwr stoc diweddar wedi dangos fod y Cyfrif Refeniw Tai'n hyfyw ac yn gynaliadwy dros y cyfnod cynllunio busnes 30 o flynyddoedd.

7. Pa ymgynghori a wnaed?

Adroddwyd yn ôl i'r pwyllgor archwilio'n rheolaidd ac mae'r tenantiaid wedi bod â rhan fawr yn y gwaith gwella trwy gyfres o weithdai'n ymdrin â gwelliannau amgylcheddol, Safon Ansawdd Tai Cymru a dewis y contractwyr dewisol.

Mae arolygon manwl yn cael eu cynnal yn dilyn pob contract gwella gyda graddfeydd bodlonrwydd o 90% a mwy yn cael eu cofnodi ar yr holl contractau a gwblhawyd.

8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Dim ond ychydig fisoedd y bydd Sir Ddinbych yn fyr o gyrraedd targed cenedlaethol a osodwyd nifer o flynyddoedd yn ôl ar gyfer cyrraedd y Safon. Bu pwysau ar gostau rhai o'r contractau ond hyd yn hyn mae'r rhain wedi'u rheoli'n effeithiol ac wedi golygu nad oes yr un contract wedi mynd y tu hwnt i'r amcangyfrifon cyn tender na'r rhagdybiaethau yn y Cynllun Busnes Stoc Tai. Bydd y Cynllun ei hun yn cael ei adolygu'n llwyr cyn hir i dalu sylw i'r arolwg diweddar ar gyflwr y stoc ac i newidiadau a allai godi yn system sybsidi tai yng Nghymru.

9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Mae yna gofrestr risg ar gyfer darparu Safon Ansawdd Tai Cymru, fodd bynnag, mae'r risgiau sy'n gysylltiedig â methu â chyrraedd y safon yn cael eu cyfrif yn isel o gymharu â'r disgwyliad bod yn rhaid i'r stoc gyrraedd y safon erbyn 21 Rhagfyr 2013.

10. Yr Hawl i Benderfynu

Mae'r adroddiad hwn er gwybodaeth.

**Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig i Gydymffurfio â Safonau Ansawdd Tai Cymru
Atodiad A**

Landlord	2012/13	2013/14	2014/15	2015/16	2016/17	2017/18	2018/19	2019/20	Cymerad wywyd
LCC Traddodiadol									
CT Aelwyd	X								
CT Bro Myrddin			X						N
Grŵp Tai Cadarn			X						N
CT Cadwyn		X							N
CT Cymuned Caerdydd		X							N
Coastal HA	X								
Grow Cartrefu Cymunedol Cynon Taf		X							N
Cymdeithas Tai Teulu	X								
CT Dewis Cyntaf	X								
Gwalia	X								
CT Hafod	X								
Linc Cymru	X								
Melin Homes	X								
CT Merthyr				X					N
CT Canolbarth Cymru	X								
CT North Wales			X						N
CT Penfro	X								
Grwp Tai Pennaf		X							N
CT Rhondda		X							N
Seren	X								

Cartrefi Gwynedd																					D	
Merthyr Valleys Homes																						D
CT Sir Fynwy	X																					
NPT Homes																						D
Newport City Homes																						D
Newport HT	X																					
Cartrefi RCT	X																					
Tai Calon																						D
Tai Ceredigion																						D
Valleys to Coast									X													D

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i:	Cabinet
Dyddiad y Cyfarfod:	18 Rhagfyr 2012
Aelod Arweiniol / Swyddog:	Cynghorydd Bobby Feeley Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant Sally Ellis, Cyfarwyddwr Corfforaethol dros Foderneiddio a Lles
Awduron yr Adroddiad:	Anne Hughes-Jones, Rheolwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Oedolion a Clare John, Uwch Swyddog Cyllid
Teitl:	Ymgynghoriad ar Gynllun Gwario Cefnogi Pobl & newidiadau i'r Strategaeth Cefnogi Pobl i 2013 to 2014

1. Beth yw testun yr adroddiad?

Y cynllun gwario tair blynedd ar gyfer Cefnogi Pobl (CP) a newidiadau i'r Strategaeth CP gan gynnwys y goblygiadau i Gyngor Sir Ddinbych o newidiadau i'r Rhaglen CP ar draws Cymru.

2. Beth yw'r rheswm dros wneud yr adroddiad hwn?

Mae angen penderfyniad ar gymeradwyo'r Strategaeth a'r Cynllun Gwario Cefnogi Pobl.

I ddarparu gwybodaeth ar newidiadau i'r Rhaglen CP ar draws Cymru.

3. Beth yw'r Argymhellion?

I gytuno gyda'r newidiadau i'r Strategaeth a'r Cynllun Gwario Cefnogi Pobl i 2013-14, cyn i gynlluniau gael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cydweithredu Rhanbarthol a Llywodraeth Cymru.

4. Manylion yr adroddiad.

4.1 Mae Cefnogi Bobl yn rhaglen sylweddol sy'n darparu gwasanaethau cefnogi "cysylltiedig â thai" i ystod eang o grwpiau bregus, gan gynnwys pobl sy'n ddigartref, pobl ag anghenion iechyd meddwl, anabledau dysgu, yr ifanc a'r bregus, pobl gydag anghenion yn deillio o gam-drin sylweddau, cyn-droseddwr, pobl sy'n ffoi rhag camdriniaeth yn y cartref a phobl hŷn. Y nod yw eu galluogi i elwa ar gartrefi sicr wrth ddatblygu agweddau eraill o'u bywydau gan hyrwyddo annibyniaeth. Mae'r Rhaglen Cefnogi Pobl wedi cael ei gwerthuso ar lefel genedlaethol gan ddangos ei bod yn cynhyrchu manteision ariannol a manteision nad ydynt yn rhai ariannol. Yn Sir Ddinbych, mae Cefnogi Bobl yn ariannu nifer helaeth o wasanaethau gwahanol gan gynnwys elfennau o dai lloches, gofal ychwanegol, llochesi i fenywod, cynlluniau byw yn y gymuned i bobl ag anabledau dysgu a chynlluniau i bobl ddigartref.

Y Sefyllfa ar Hyn o Bryd.

- 4.2** Mae newidiadau i weinyddiaeth y rhaglen CP yn digwydd ar draws Cymru. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys fformiwla dosrannu cyllid newydd, a throsglwyddo cyfrifoldebau am rai gwasanaethau o Lywodraeth Cymru i awdurdodau lleol. Ymhellach, mae trefniadau rheoli newydd, gan gynnwys Pwyllgorau Cydweithredu Rhanbarthol (RCC) gyda chyfrifoldebau allweddol am y Rhaglen CP, bellach wedi'u sefydlu ar draws Cymru.
- 4.3** Mae cyfrifoldeb ar y RCC i wneud argymhellion ar wario lleol a rhanbarthol i'r Gweinidog a fyddai wedyn yn gwneud y penderfyniadau ynghylch adnoddau. Felly, byddai'r Gweinidog yn rhan o'r broses gwneud penderfyniadau ynghylch gwario lleol a rhanbarthol ar wasanaethau CP a hawl trosglwyddo arian rhwng y cynlluniau lleol a rhanbarthol o fewn y rhanbarth.

Goblygiadau i Sir Ddinbych

- 4.4** Rhagwelir y bydd gweithredu'r fformiwla dyrannu uchod sy'n seiliedig ar anghenion yn arwain at ostyngiad ariannol o £1.5m yn Sir Ddinbych dros gyfnod o 5 mlynedd, gan ddechrau yn 12/13. Cyfradd y cwtogi yw 4% (£273k yn 12/13), 4% yn 13/14 (£276k) yn ogystal â 5% yr un yn 14/15, 15/16 a 16/17. Mae Sir Ddinbych wedi dechrau paratoi ar gyfer lliniaru effeithiau'r golled hon. Er hynny, mae'n amlwg bod hyn yn golygu colled sylweddol o ran arian, a hynny'n debygol o effeithio ar wasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion. Mae sefydliad Pwyllgorau Cydweithredu rhanbarthol yn lleihau'r rôl a oedd gan y Cyngor ynghynt. Mae canllawiau newydd a newidiadau i delerau ac amodau grant hefyd yn effeithio ar hyblygrwydd.

Strwythur cyflenwi'r RCC

- 4.5** Mae yna lawer o ansicrwydd ynghylch sut fydd y strwythur cyflenwi newydd yn gweithio gan nad oes corff amlsector tebyg, sy'n cynnwys comisiynwyr a darparwyr, wedi bodoli o'r blaen. Felly nid oes sylfaen o berthnasoedd ac ymddiriedaeth y gellid seilio'r cyd-weithio arno. Mae'r holl randdeiliaid o'r farn bod buddion i'w cael o weithio trawsffiniol, yn enwedig lle mae yna anghenion arbenigol. Fodd bynnag, mae yna botensial ar gyfer anghytuno wrth ddehongli'r trefniadau a'r canllawiau newydd. Mae yna bosibilrwydd y bydd cyrff sy'n dal grantiau yn wynebu risg yn ogystal â risg o lai o gyllid oherwydd aiddosbarthu. Mae hyn yn arbennig o wir yng Ngogledd Cymru oherwydd bod holl awdurdodau Gogledd Cymru yn debygol o golli allan yn sgil yr aiddosbarthu.
- 4.6** Gwnaethpwyd argymhellion i'r Cabinet ar 4 Medi y dylai Sir Ddinbych, er gwaetha'r risgiau a nodwyd, gyfranogi yn y trefniadau newydd a cheisio dylanwadu ar y trefniadau cyflenwi o'r "tu mewn". Er hynny, mae'r risgiau yn golygu bod yn rhaid craffu'n ofalus ar effeithiau'r trefniadau newydd, yn enwedig dros y 12 mis nesaf, wrth i'r prif newidiadau gael eu cyflwyno.

Newidiadau i'r strategaeth CP 2013/14

- 4.7** Mae manylion o'r newidiadau wedi'u cynnwys yn atodiad 1, tudalennau 2 a 3 ac wedi'u hamlygu'n felyn er mwyn eu hadnabod yn rhwydd. Bydd yn rhaid datblygu strategaeth dreigl 3 blynedd newydd yn ystod 2013 i adlewyrchu'r cynllunio gwario 3 blynedd newydd a bydd hyn yn nodi sut y byddwn yn rheoli'r diffyg a ragwelir yn 2014/15 a 2015/16.

Y cynllun gwario 3 blynedd

- 4.8** Mae'r cyfrifiadau grant ac effaith y gostyngiad mewn gwario ar gyfer 2012/13 a'r 4 blynedd nesaf i'w gweld yn Atodiad 2.
- 4.9** Mae'r gostyngiad cyffredinol o 4% yn 13/14 gyfwerth â £276k a rhoddir cynigion i'r RCC am ostyngiadau i'w canfod o fewn PDSI (£125K) (sydd â llai o alw), adnoddau heb eu rhwymo o 12/13 (£109k) a gwasanaethau anabledau dysgu (£42k).
- 4.10** Mae'r cynllun gwario 3 blynedd hefyd yn gofyn adrodd ar gyfer 2014/15 a 2015/16. Unwaith eto, ceir manylion am lefelau'r arbedion sydd eu hangen yn Atodiad 2. Er bod Llywodraeth Cymru angen cynllun gwario 3 blynedd (13/14 hyd 15/16), bwriad Cyngor Sir Ddinbych ar hyn o bryd yw bod yn glir ynghylch Blwyddyn 1 (13/14) a nodi bod angen mwy o amser i ddatblygu cynigion ar gyfer 14/15 a 15/16. Credwn y bydd awdurdodau eraill yng Ngogledd Cymru yn gwneud yr un peth. Mae Cyngor Sir Ddinbych hefyd yn cynnig bod y toriadau yn cael eu dosbarthu'n fwy cytbwys, oherwydd hyd yn hyn, mae'r holl doriadau wedi dod o gyn-wasanaethau SPG (sef y rhai sy'n ariannu gwasanaethau yn gysylltiedig â gofal yn y gymuned). Mae lefelau'r arbedion sy'n angenrheidiol wedi'u torri i lawr i'r prosiectau a gategoriwyd ynghynt fel rhai SPG, SPRG a WAG SPRG. Mae angen y gostyngiadau hyn er mwyn mantoli'r arian grant a nodir ar gyfer 2014/2015 a 2015/2016.
- 4.11** Bydd yr holl brosiectau yn rhan o'r broses adolygu. Wrth i hyn ddatblygu, mae'n bosibl y bydd yr adolygiadau yn helpu llywio opsiynau eraill ar gyfer darparu lefel yr arbedion sy'n angenrheidiol. Bydd holl adolygiadau yn ystyried cymhwysedd gwasanaethau, "perthnasedd strategol i'r gronfa" a pherfformiad yn erbyn contractau a deilliannau.
- 4.12** Mae Cynlluniau Gwario 2012/13 2013/14 wedi'u cynnwys yn Atodiad 3.
- 4.13** Mae'r amserlen ar gyfer adrodd ar y wybodaeth ariannol i'r RCC i'w gweld yn Atodiad 4.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol

Bydd cydweithio rhanbarthol a strategaeth ranbarthol ar gyfer comisiynu a darparu gwasanaethau yn cyfrannu at ymdopi gyda'r grant llai ac yn diogelu gwasanaethau rheng-flaen. Fodd bynnag, mae'n rhaid i ni sicrhau'r trefniadau terfynol ar gyfer RCC i gyflawni hyn yn effeithiol.

6. Beth fydd yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Rhagwelir y bydd y gostyngiad bras yn y grant CP dros y 5 mlynedd nesaf oddeutu £1.5m i Sir Ddinbych.

Bydd hyn yn effeithio ar y cyllidebau Gofal Cymdeithasol a Thai. Nid yw'r effaith terfynol yn eglur, ond mae'n £167k yn 13/14 a gallai fod oddeutu £133k yn 14/15 a £126k yn 15/16.

Bydd y prosiectau a'r newidiadau a nodwyd yn cael eu rheoli o fewn y gyllideb Cefnogi Pobl bresennol a ddyrannwyd i Sir Ddinbych gan Lywodraeth Cymru.

7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?

Ymgynghoriad ar Drefniadau a chanllawiau'r Rhaglen CP

Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymgynghoriad eang ar y cynigion i'r RCC. Bydd yr adolygiad a gynlluniwyd gan Lywodraeth Cymru i'r trefniadau newydd yn cynnwys asesiad o sut mae'r Rhaglen yn cyflawni gofynion Cynllun Cydraddoldeb Sengl Llywodraeth Cymru a'r cynllun gweithredu.

Ymgynghoriad ar strategaeth CP Sir Ddinbych a'r Cynllun Gwario

Cynhaliodd y Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl 3 chyfarfod yn ystod datblygiad yr adroddiad hwn gan ystyried arfau comisiynu "Blaenoriaeth Strategol i Ariannu", data Ymarfer Mapio Anghenion (NME), adroddiadau deilliannau, gwybodaeth map cyflenwi ac adborth gan randdeiliaid a chyfarfodydd ymgynghori.

Cynhaliwyd digwyddiad ymgynghori i ddarparwyr cefnogaeth presennol yng Ngorffennaf 2012 a rhoddwyd adborth mewn adroddiad i Gynllunio CP.

Bydd digwyddiad ymgynghori terfynol gyda darparwyr a rhanddeiliaid yn digwydd ar ddechrau Rhagfyr.

Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau ar 6 Rhagfyr 2012. Caiff y ddogfen derfynol ei chyflwyno i'r Grŵp Cynllunio Cefnogi Pobl ar 10 Rhagfyr 2012.

8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Byddwn yn parhau i reoli'n ofalus y gostyngiadau mewn arian grant a'r goblygiadau i'r rhaglen Cefnogi Pobl ynghyd â'r effaith ehangach ar gyllidebau gofal cymdeithasol eraill. Mae'r cyngor wedi bod yn ddarbodus ac wedi sicrhau peth darpariaeth ariannol i liniaru effaith y gostyngiadau o ran ariannu. Er hynny, bydd yn rhaid adolygu'n gyson y rhaglen a'r gwasanaethau y mae'n eu hariannu i sicrhau nad yw gwariant yn fwy na'r arian a ddyrannwyd. Mae'r gwaith o sefydlu strwythur rhanbarthol i reoli Cefnogi Pobl fel dechrau, a daw goblygiadau llawn hyn yn fwy amlwg dros y misoedd nesaf.

9. Beth yw'r risgiau ac a ellir gwneud unrhyw beth i'w lleihau?

Mae'r cynigion i reoli'r gostyngiad yn yr arian grant yn 2013/14 yn rhesymol. Byddai modd gwneud iawn am unrhyw ddiffyg mewn un flwyddyn yn y cyllidebau gofal cymdeithasol gyda'r arian wrth gefn a sefydlwyd i reoli'r toriadau yn y grant. Mae'r cynnig i ddosbarthu'r gostyngiadau grant yn gytbwys rhwng yr holl wasanaethau CP yn golygu bod yr effaith hefyd wedi'i ledaenu'n fwy gwastad, ond mae'n arwain at risg o fewn cyd-destun pwyllgor rhanbarthol gyda safbwyntiau gwahanol o bosibl ynghylch blaenoriaethau o fewn yr arian CP cyffredinol. Mae dosbarthiad mwy gwastad o doriadau yn golygu ei bod yn haws rheoli'r effaith ar y cyngor, a byddai'n rhoi mwy o hyblygrwydd o ran defnyddio'r arian CP sydd wrth gefn i ddelio gyda'r mater.

10. Pŵer i wneud y Penderfyniad

I bennu cynnwys unrhyw gynllun, strategaeth neu ddogfen bolisi arall. Mae angen cymeradwyaeth yr Aelod Cabinet Arweiniol yn unol ag Offeryn Statudol 2001 Rhif. 2291 (W,179) Rheoliad 4 (3)(c) + (d).

SP Strategy Changes 13/14

Section 5: Proposed Actions 2013 – 2014

5.1 Actions for the Community Safety & Homelessness funding portfolios 2013-14

5.1.1 Redistribution	
Action 2013 – 2014	Finance
5.1.1.1 Determine the long term Strategic Priority to Fund of all services in the light of a likely reduction in funding for Denbighshire resulting from the geographical redistribution of Supporting People funding across Wales.	Review existing funding
5.1.2 Domestic Abuse	
Action 2013 – 2014	Finance
5.1.2.1 Review Domestic Abuse floating support services in the light of findings from the possible new county wide service (see c above) & Denbighshire's "move on" framework to inform future strategic priority to fund (SPTF)	N/A (within existing Supporting People (SP) Team resources)
5.1.3 Ex Offenders	
Action 2013 – 2014	Finance
5.1.3.1 Implement the findings of a North Wales Supporting People Planning Group regional review of ex-offender services at a local level. This will consider provision for women ex-offenders.	Review existing services if required.
5.1.4 Families	
Action 2013 – 2014	Finance
5.1.4.1 Establish robust systemic links between Supporting People services for Families and Integrated Family Support Services at both strategic and operational levels.	N/A (within existing SP Team resources)
5.1.5 Young People	
Action 2013 – 2014	Finance
